Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **23 Hydref** |
| **Amser:** | **09:00 – 11:00** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Y Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (PS)<br>Beverley Peatling, Prif Swyddog Ariannol (PSA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Steve Cadenne, Adnoddau Dynol (SC)<br>Jayne Butler, Swyddog Staff, HDP (JB)<br>Mair Harries (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 23/09/2018 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Diweddariad Ynghylch Cynnydd** |
| **PB 2346** | **Rhoi diweddariad ar y Cynllun Hyfforddi Wedi'i Gostio ar gyfer 2018/19 gyda chyflwyniad gan yr adran AD yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 23 Hydref 2018.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2347** | **Cyflwyno'r Cynllun Hyfforddi Wedi'i Gostio ar gyfer 2019/20 yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 20 Tachwedd.** | **Yn parhau** |
| **PB 2348** | **SCHTh i ddrafftio llythyr gan y CHTh i'r Prif Weinidog a Gweinidog Cabinet Cymru yn tynnu sylw at ymdrechion a gwaith da HDP, partneriaid a staff gweithredol yn ystod y llifogydd.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2349** | **Yr Heddlu i ymateb gyda'i weithredoedd arfaethedig ar gyfer mynd i'r afael â'r argymhellion o'r adroddiad craffu dwys ar y defnydd o rym erbyn 30 Hydref.** | **Yn parhau** |
| **PB 2350** | **Codi'r mater o gydweithio mewn cyfarfod rhwng Tîm Prif Weithredwyr SCHTh ac ASau Cymru ar 4 Rhagfyr.** | **Yn parhau** |
| **PB 2351** | **Anfon ymatebion ar wahân gan SCHTh a HDP at Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu.** | **Yn parhau** |

DRAFFT

## 2. Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol

Gydag ambell ddiwygiad, cydnabu'r Bwrdd fod y cofnodion o'r cyfarfod diwethaf yn adlewyrchiad gwir a chywir o gynnwys y cyfarfod.

## 3. Diweddariad y Prif Gwnstabl

### Diweddariadau Gweithredol

Diweddarodd y PG y Bwrdd ynghylch ymgyrch chwilio parhaus am unigolyn sy'n cael ei amau o fod yn gysylltiedig â throsedd ym Mhentywyn ddechrau Hydref. Hefyd, diweddarodd y PG y Bwrdd ynghylch dedfrydu unigolyn yn Nhrefyclo a diwedd achos crwner mewn perthynas â digwyddiad yn Llangamarch ym mis Hydref 2017.

### Diweddariadau Sefydliadol

Hysbysodd y PG y Bwrdd am gyflwyniad Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (AHGTAEM) ar alw ddydd Llun 29 Hydref.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i wahodd CHTh i gyflwyniad AHEM ar alw ar 29 Hydref 2018.**

Hysbysodd y PG y Bwrdd y byddai AHEM yn aros yn yr heddlu am y bythefnos nesaf er mwyn cynnal ymchwiliad cyfunol o effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb Heddlu Dyfed-Powys (HDP). Nodwyd mai HDP fyddai un o'r heddluoedd cyntaf i gael ei archwilio ar dair elfen gyfunol ar yr un pryd.

## 4. Diweddariad CHTh

### Lleol

Diweddarodd y CHTh y Bwrdd ar ddigwyddiad a gynhaliwyd yn SCHTh yr wythnos diwethaf a oedd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o droseddau casineb ymysg plant. Hefyd, soniodd y CHTh am ei gysylltiad â Fforwm Ieuenctid Sipsiwn a Theithwyr yng Nghastell Caeriw ar 17 Hydref. Gwahoddodd y CHTh yr Heddlu i groesawu Jeff Cuthbert, CHTh Gwent, i Bencadlys HDP yn ystod ei ymweliad i weld y rhesymwaith dros symud yr adran ystadau o ofal HDP i SCHThDP yn 2017.

### Cenedlaethol

Hysbysodd y CHTh y Bwrdd am ei bresenoldeb yng Nghyfarfod Cyffredinol Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn Ryton ar 18 Tachwedd, a diweddarodd y Bwrdd am drafodaethau yn y cyfarfod a oedd yn ymwneud â chyllid posibl yn y dyfodol gan y Llywodraeth ganolog.

## 5. Eitemau Sefydlog

### a) AD

DRAFT

Diweddarodd SC y Bwrdd ynghylch dau eitem sefydlog gan y Tîm Gwasanaethau Pobl, sef lefelau gweithlu a lefelau salwch. Hefyd, rhoddodd SC ddiweddariad ynghylch cynllun hyfforddi eleni a diweddariad o gyfarfod y Cyd-bwyllgor Ymgynghori a gynhaliwyd gan y PG ym mis Medi 2018.

Y Gweithlu
Cyflwynodd SC ddiweddariad i'r Bwrdd ynglŷn â'r gweithlu a oedd yn cynnwys data gweithlu a data gwirioneddol mewn perthynas â swyddogion heddlu, a data gweithlu a data gwirioneddol mewn perthynas â staff yr heddlu. Cydnabu'r CHTh fod y diweddariad yn cynnwys naratif ac yn tynnu sylw at dueddiadau, fodd bynnag, mynegodd ei rwystredigaeth fod y data dal yn giplun o ffenestr amser bach iawn, ac nad oedd yn adlewyrchu taith o ffigurau gweithlu blaenorol a syniad o beth ddisgwylir i'r ffigurau fod yn y dyfodol.

**Cam Gweithredu: AD i roi diweddariad o ddata gweithlu ar gyfer mis Tachwedd a mis Rhagfyr yng nghyfarfod mis Rhagfyr o'r Bwrdd Plismona.**

Cafwyd trafodaeth am strategaeth AD yr heddlu, gyda'r CHTh yn gofyn am ddadansoddiad o dueddiadau fel rhan o'r adroddiad.

**Cam Gweithredu: AD i ymgysylltu â'r PSA a'r CC er mwyn sicrhau bod y strategaeth AD yn cyd-fynd â chynlluniau ac oblygiadau ariannol yr Heddlu.**

Cafwyd trafodaeth ynghylch pwysau ychwanegol ar yr adran AD mewn perthynas â swyddogion a staff yn gadael neu'n trosglwyddo i weithio yn y rhanbarth, gan arwain at effaith ar batrwm staff HDP. Hefyd, soniodd y PSA am bwysau a nodwyd gan Matt Jukes, PG De Cymru, mewn perthynas â chostau TG uwch ac ariannu godir ar gyfer yr Uned Troseddu Trefnedig a Rhanbarthol, a phe bai modd datblygu strategaeth AD HDP i ddarogan trosglwyddedigion, awgrymodd y gellid alinio hyn â chynllun recriwtio HDP.

Symudodd y drafodaeth ymlaen at weithio hyblyg a sut y mae aelodau staff sy'n gweithio patrymau sifft gwahanol yn cael eu rheoli. Cydnabu bod y PGC yn cadeirio'r Grŵp Rheoli Adnoddau, sy'n adolygu'r mater hwn, ar hyn o bryd.

Salwch
Cydnabu SC fod lefelau salwch wedi codi rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref, a oedd yn cyfateb â ffigurau tymhorol o 2017. Dywedodd y CHTh ei fod yn hyderus bod y lefel manylder priodol yn cael ei roi i'r PG mewn sesiynau gwybodaeth AD rheolaidd i brif swyddogion, a bod achosion sy'n ymwneud â'r tîm cyfreithiol ac iechyd galwedigaethol yn cael eu harsylwi gan y DBG.

**Cam Gweithredu – AD i ddarparu ffigurau chwarterol ynglŷn â'r gweithlu o ran swyddogion heddlu a staff yr heddlu ym mhob un o gyfarfodydd y bwrdd plismona sydd â thema AD. Dylai'r adroddiadau hyn hefyd gynnwys dadansoddiad rhagfynegi ar gyfer y chwarter sydd i ddod.**
**Cam Gweithredu – Cymharu data salwch HDP ag awdurdodau unedol a rhoi'r ffigurau gyda sesiwn wybodaeth nesaf yr adran AD yng nghyfarfod mis Tachwedd y BP.**

**Cam Gweithredu – Y PS i roi adroddiadau AD Awdurdod yr Heddlu sy'n cynnwys data salwch fel templed ar gyfer adroddiadau BP yn y dyfodol.**
**Cam Gweithredu - Tracey Hawthorn i ystyried Pecyn Diswyddo Staff Heddlu HDP er mwyn bod yn gydradd â heddluoedd eraill Cymru.**

Hysbysodd SC y Bwrdd mai materion seicolegol sy'n gyfrifol am y gyfradd uchaf o salwch ymysg swyddogion a staff ar hyn o bryd. Nodwyd fod strwythur tîm iechyd galwedigaethol HDP wedi'i ddiwygio er mwyn cynnwys darpariaeth iechyd meddwl gyda dadansoddiad o gwmpas achosiaeth yn digwydd ar hyn o bryd.

<u>Hawliau</u>
Cafwyd trafodaeth fer mewn perthynas â phenderfyniad a wnaed yn 2014 a arweiniodd at Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru'n gwrthod lleihau eu hawliau. Dywedodd y CHTh y byddai'n cefnogi'r pedwar heddlu i ddod i gytundeb cyson ag Unsain ar y mater.

**b) Toriadau Diogelwch Data**

Cydnabu'r Bwrdd gynnydd o nifer y toriadau ar gyfer yr un cyfnod yn 2017 a sylwodd fod arferion cofnodi llymach yn golygu bod toriadau'n cael eu cofnodi'n fwy cywir.

**7. Materion i'w trafod**

**a) PB 2346 – 2017/18 Cynllun Hyfforddi Wedi'i Gostio**

Dywedodd SC fod y tîm AD wrthi'n olrhain gorwariant o'r gyllideb AD. Nid yw £126,000 o'r gyllideb wedi ei wario ar hyn o bryd. Dywedodd SC y byddai gorwariant o £25,000 pe bai pob prosiect y mae HDP wedi cefnogi'n cael ei brynu, felly byddai sawl cwrs yn cael ei ailddyrannu, neu ni tanysgrifir iddynt. Nodwyd fod y DBG a'r PGC yn craffu ar yr holl hyfforddiant sydd wedi ei ganslo ar hyn o bryd er mwyn sicrhau cadernid o fewn yr heddlu.

**b) PB 2338/PB 2339 – Cyflwyno cynllun ariannol tymor canolig mewn cyfarfod o'r BP ym mis Hydref.**

Cyflwynodd y CC y sefyllfa o ran y gyllideb refeniw gan ddangos faint sydd wedi'i wario eleni hyd yn hyn wrth agosáu at fan hanner ffordd blwyddyn ariannol 2018/19. Nodwyd fod HDP uwchlaw ei darged gwario o £486,000 ar hyn o bryd, ac o'r swm hwnnw, mae £438,000 yn gyflog ar gyfer gweithwyr yr heddlu. Disgwylir i hyn fod yn unol â'r targed erbyn diwedd y flwyddyn.

Mynegodd y CHTh bryder dros y sefyllfa o ran goramser, sydd tua £100,000 dros y gyllideb ar hyn o bryd o ganlyniad i ffactorau megis ymchwiliad i lofruddiaeth ym Mhentywyn sy'n parhau, sydd wedi costio £63,000 hyd yn hyn. Dywedodd y CC fod gostyngiadau dal yn cael eu gwneud gan Grŵp Aur HDP.

Cyflwynodd y CC amrywiadau ers y BP diwethaf, gan gynnwys £410,000 ar gyfer goramser swyddogion, £53,000 ar gyfer gwyliau banc, tanwariant o £400,000 ar gyfer cyflenwi a gwasanaethau, a gorwariant o £170,000 ar staff asiantaeth, a hynny'n bennaf oherwydd taliadau ar gyfer tywys cerbydau a oedd yn teithio i'r

fferm wynt yn ystod haf 2017. Hefyd, nododd y CC incwm o £250,000 o daliadau a wnaed gan Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu.

Dywedodd y CC fod y sefyllfa alldro a ragamcanwyd ar gyfer diwedd y flwyddyn wedi'i chyflawni drwy waith proffilio, gyda'r PSA yn nodi mai'r rhagolwg diwedd flwyddyn yw nod tîm ariannol HDP ar hyn o bryd. Roedd gwaith parhaus tuag at y rhagolwg diwedd flwyddyn yn cynnwys adolygiadau o bryniadau caffael ac arwerthu sawl cerbyd heddlu, gan arwain at incwm o £100,000. Mynegodd y CC ei hyder fod y cynlluniau wrth gefn cywir a dealltwriaeth o'r gofynion ariannol a'r galw mewn grym.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chyfalaf, gyda'r CHTh yn awgrymu adolygu'r proffil cyfalaf er mwyn gwella perfformiad. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r buddsoddiad o £250,000 mewn systemau fideo a osodwyd mewn ceir yn ystod y flwyddyn ariannol 16/17, sydd wedi parhau i effeithio ar gyllideb 2018/19, a arweiniodd CHTh i annog adolygiad trylwyr o benderfyniadau prynu cyn ymrwymo cyfalaf i brosiectau newydd.

Canmolodd y CHTh ymdrechion diflino'r CC, y PSA a thîm cyllid HDP wrth iddynt gefnogi gwaith parhaus sy'n ymwneud â'r gyllideb.

**Unrhyw Fusnes Arall**

**a) Cais am gyllid gan FRICS**
Cyflwynodd y PS argymhelliad i'r Bwrdd gan SCHTh Gwent i ddefnyddio adnoddau o Danwariant Cenedlaethol Camau Cynnar Gyda'n Gilydd Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar achos busnes i FRICS. Deallwyd fod y DBG wedi ymrwymo i gynllun lle'r oedd Heddlu De Cymru, Heddlu Dyfed-Powys a Heddlu Gwent wedi addo £6250 o gynnig £18750, gyda Llywodraeth Cymru'n talu arian cyfatebol.

**b) Swyddog Diogelu Rhag Twyll Ariannol Ymgyrch Signature**
Hysbysodd y CHTh y PG am sefyllfa lle'r oedd SCHTh wedi cytuno i ariannu swyddog diogelu rhag twyll ariannol drwy'r Ddeddf Elw Troseddau, fodd bynnag, roedd yr un swyddog, a gychwynnodd ei swydd ym mis Hydref 2018, hefyd yn derbyn arian gan uned seiberdroseddu arbenigol yn Swydd Derby.

**Cam Gweithredu – Y CHTh i roi gohebiaeth i JB sy'n ymwneud ag ariannu Swyddog Diogelu Rhag Twyll Ariannol ar gyfer dilyniant.**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 23/10/2018 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2352** | **Yr Heddlu i wahodd CHTh i gyflwyniad AHEM ar alw ar 29 Hydref 2018.** | **Yr Heddlu** |
| **PB 2353** | **AD i roi diweddariad o ddata gweithlu ar gyfer mis Tachwedd a mis Rhagfyr yng nghyfarfod mis Rhagfyr o'r Bwrdd Plismona.** | **AD** |
| **PB 2354** | **AD i ymgysylltu â'r PSA a'r CC er mwyn sicrhau bod y strategaeth AD yn cyd-fynd â chynlluniau ac** | **AD** |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | **oblygiadau ariannol yr Heddlu.** | |
| **PB 2355** | **AD i ddarparu ffigurau chwarterol ynglŷn â’r gweithlu o ran swyddogion heddlu a staff yr heddlu ym mhob un o gyfarfodydd y bwrdd plismona sydd â thema AD. Dylai’r adroddiadau hyn hefyd gynnwys dadansoddiad rhagfynegi ar gyfer y chwarter sydd i ddod.** | **AD** |
| **PB 2356** | **Cymharu data salwch HDP ag awdurdodau unedol a rhoi’r ffigurau gyda sesiwn wybodaeth nesaf yr adran AD yng nghyfarfod mis Tachwedd y BP.** | **AD** |
| **PB 2357** | **Y PS i roi adroddiadau AD Awdurdod yr Heddlu sy’n cynnwys data salwch fel templed ar gyfer adroddiadau BP yn y dyfodol.** | **PS** |
| **PB 2358** | **Tracey Hawthorn i ystyried Pecyn Diswyddo Staff Heddlu HDP er mwyn bod yn gydradd â heddluoedd eraill Cymru.** | **AD** |
| **PB 2359** | **Y CHTh i roi gohebiaeth i JB sy’n ymwneud ag ariannu Swyddog Diogelu Rhag Twyll Ariannol ar gyfer dilyniant.** | **CHTh** |

DRAFT